**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD GWENER, 21 MAI 2021**

**BWRDD STRYDLUN A PHEIRIANNEG Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: A.Wingrave a/ac M.Harvey

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

D.Griffiths, S. Owen, J Davies, N.Headon a/ac C.Plowman

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd M Harvey yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 26 Mawrth, 2021.

4. **RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig a ddosbarthwyd, dylid cynnwys y cwmnïau canlynol yn y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:-

| Cwmni | Categori |
|---|---|
| Kompan Ltd (K011) | 104 |
| Spartan Scaffolding Solutions Ltd (S097) | 11 |
| Eurosafe Solutions Ltd (E031) | 64, 66, 111 |
| Andrew D'Auria Solutions Ltd (A073) | 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 46 |

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes, a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol.
Caiff yr argymhellion hyn eu mabwysiadu at ddiben darparu Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer gwahoddiad i dendro yn y categori perthnasol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

5. **MYNEDIAD I DRAETH ABERAFAN DRWY'R RAMP MYNEDIAD I'R LLITHRFA NEWYDD YM MAES PARCIO RHODFA SCARLETT**

Esboniodd swyddogion y byddai Opsiwn 3 yn caniatáu mynediad i'r traeth drwy gât i gerddwyr ond byddai hygyrchedd yn gyfyngedig oherwydd goblygiadau iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â darparu mynediad anghyfyngedig yn y lleoliad hwn - roedd hyn oherwydd graddiant y ramp a’r prosesau llanw.

Eglurodd y Swyddogion hefyd y byddent yn ymchwilio i fynediad i gadeiriau gwthio yn y lleoliad hwn.

Canmolodd yr Aelodau Gynghorwyr Lleol am yr holl waith caled a wnaed yn y maes hwn.

Roedd yr Aelodau'n gefnogol o'r gwelliant i'r argymhelliad fel y'i cynhwysir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, fel a ganlyn:

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig cam cyntaf a ddosbarthwyd, rhoddir cymeradwyaeth ar gyfer mynediad i draeth Aberafan drwy'r ramp mynediad llithrfa newydd drwy'r gât i gerddwyr yn unig, a chaiff y brif gât ei chadw dan glo a bydd yn hygyrch ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac argyfwng yn unig. Bydd y gât i gerddwyr i'r traeth yn parhau i fod ar agor a gellir ei defnyddio fel pwynt mynediad i'r traeth ym mhen gorllewinol y promenâd. Byddai hyn hefyd yn cynnwys ychwanegu rhwystr, arwyddion a mannau parcio ychwanegol i'r anabl ger y ramp mynediad pwrpasol i'r anabl, fel y nodir yn Opsiwn 3 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Penderfynu ar unrhyw fynediad cyhoeddus mewn perthynas â'r ramp cynnal a chadw mynediad i'r traeth sydd newydd ei adeiladu ym maes parcio Rhodfa Scarlett.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau

6. **GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG: CIL-FFRIW**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig a ddosbarthwyd, rhoddir cymeradwyaeth i hysbysebu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Terfyn Cyflymder 20 mya arfaethedig ym Mhentref Cil-ffriw, Castell-nedd, fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd, ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, dylid gweithredu'r cynigion ar y safle fel y'u hysbysebwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Helpu i leihau cyflymder traffig er budd diogelwch ar y ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau

7. **OPSIYNAU DYLUNIO AR GYFER ADFERIAD TOMEN CILMAENGWYN UWCHBEN YSGOL GYNRADD GODRE'R GRAIG**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig a ddosbarthwyd, cymeradwywyd penodi Earth Science Partnership i ymgymryd â'r gwaith o ymchwilio i'r opsiynau dylunio, gan gynnwys cynhyrchu amcangyfrifon cyllideb ar gyfer yr holl waith sy'n gysylltiedig ag adfer tomen wastraff Cilmaengwyn, fel a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Helpu i gynhyrchu opsiwn adfer addas ar gyfer Tomen Cilmaengwyn.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau

8. **BLAENRAGLEN WAITH 2021-2022**

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

**CADEIRYDD**